

<b>CYFARFOD</b>	<b>Cyngor</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>6 Rhagfyr 2018</b>
<b>AELOD CABINET</b>	<b>Cynghorydd Nia Jeffreys</b>
<b>TEITL</b>	<b>Penderfyniad Brys Cabinet</b>
<b>AMCAN</b>	<b>Er Gwybodaeth</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Swyddog Monitro</b>

## **CEFNDIR**

1. Cyflwynwyd adroddiad gyda drafft o Ddatganiad o Effaith Lleol ar gyfer ymchwiliad "DCO" Wylfa newydd. I'r Cabinet ar y 27ain o Dachwedd 2018. Amcan yr adroddiad oedd derbyn cymeradwyaeth y Cabinet i'r cynnwys. Rhaid oedd cyflwyno'r datganiad i'r ymchwiliad erbyn y 4ydd o Ragfyr 2018. Oherwydd yr amserlen gaeth a phwysigrwydd y mater roedd angen sicrhau fod y penderfyniad yn weithredol yn syth.

## **PENDERFYNIAD BRYS**

2. O ganlyniad, bu'n ofynnol gwneud penderfyniad brys yn unol â Rhan 7.25.2 o'r Cyfansoddiad y dylid ei eithrio o'r drefn galw i mewn. Mae hyn yn caniatáu i benderfyniad Cabinet fod yn weithredol yn syth ac yn benodol felly heb ddisgwyl am bum diwrnod gwaith clir cyn y gellir ei weithredu. Mae'r drefn yma yn amodol ar gydsyniad Cadeirydd y Cyngor ac adrodd ar hyn i'r Cyngor nesaf.
3. Derbyniwyd cytundeb Cadeirydd y Cyngor ei fod yn fater brys a bod y penderfyniad a gynigwyd yn un rhesymol o dan yr amgylchiadau.

## **ARGYMHELLIAD**

I dderbyn a nodi'r adroddiad.